CYNGOR TREF NEFYN

# COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 10/09/2024 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Alaw Llewelyn Roberts (Is-gad) | Gito Williams | Gruffydd Williams | Arfon Hughes | Gareth Jones |
| Carys Roberts | Rhian Sanson | Lleucu Jones | Rhys Llewelyn | Gwynfor Jones |
| Pat Humphreys (Clerc) | | | | |

Croesawyd yr Is-gadeirydd yn ôl bod yn teithio America a hefyd ei llongyfarch ar gael ei enwebu ar gyfer Baffta Cymru.

1. **Ymddiheuriadau.**
Mared Llywelyn Williams, Iwan Evans, Caren Jones a Catrin Roberts.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
Dim.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
Cofnodion Pwyllgor Hybrid 09/07/2024
Penderfyniad: derbyn yn gywir.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gareth Jones

4. **Unrhyw Fater Brys**

1. **Trwsio mainc ar Lôn Gam Nefyn –** Arfon Hughes
Mae un o'r meinciau ar y Lôn Gam Nefyn wedi malu ac mae angen cael rhywun i roi pishyn o bren arni i'w thrwsio.
Penderfynwyd: Gofyn i un o gontractwyr CTN i fynd yno i'w thrwsio.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Carys Roberts
2. **Ffurflen cwblhau prosiect diogelu llwybr Benrallt Nefyn a lleoliad y plac –** Gruffydd Williams
Mae angen llenwi ffurflen cwblhau prosiect diogelu llwybr Benrallt Nefyn a penderfynnu ble i osod y plac.
Penderfyniad: Mae aelod lleol Nefyn am yrru copi o'r ffurflen i'r Clerc a be sydd angen roi arni ac mae'r clerc am ei llenwi fewn a'i gyrru i Cyngor Gwynedd. Penderfynwyd gosod y plac yn y ddaear ar ochor Morfa i tŷ Cliff Top.
3. **Cais am gyfraniad ariannol – pwyllgor cae chwarae Edern**
Gan na dderbyniwyd y wybodaeth a ofynwyd amdano fe fydd rhaid rhoi'r mater ar agenda mis nesaf gan obeithio y bydd wedi ei dderbyn cyn y pwyllgor.
4. **Ebost David Entwistle –** Glanhau gwydr oddi ar y cae aml ddefnydd
Derbyniwyd ebost gan David Entwistle yn dweud fod llanast ar y cae aml ddefnydd gan fod plant wedi gadael caniau, poteli plastic a poteli cwrw wedi malu arno. Mae o wedi bod yn hel y gwydr

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

sydd yn weladwy ond mae'n bryderus fod mwy yno ac y bydd plant yn brifo ac felly yn gofyn i CTN drefnu fod rhywun yn mynd yno i wneud yn siwr fod y gwydr i gyd wedi cael ei hel.
Penderfyniad: mae'r aelod lleol am fynd yno i weld os oes gwydr yn dal yno ac os oes ei hel.

5. **Gwaith ar y ddwy bont yn Y Ddôl a Brynmynach –** Gruffydd Williams
   Mae angen rhoi graean bob ochor i'r bont rhwng Bryn Mynach â'r Ddôl ac mae'r concrid sydd ar y bont gyntaf sydd yn mynd drwadd i'r rhandiroedd wedi mynd yn fregus felly mae angen trwch o goncrid arni.
   Penderfyniad: gofyn i gontractwr CTN i fynd i wneud y gwaith a cyfarfod aelod lleol Nefyn ar y safle yn gyntaf iddo gael egluro beth sydd angen ei wneud.
   Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Arfon Hughes
6. **Ymddiswyddiad un o aelodau Morfa Nefyn**
   Mae un o aelodau Morfa Nefyn wedi ymddiswyddo felly mae'r clerc am gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ddechrau'r broses o lenwi'r sedd wag.

5. **Cyflwyniad Grŵp Cynefin –** datgblyiad tai fforddiadwy bwriededig ar dir ger Helyg, Nefyn
   Cafwyd cyflwyniad gan Grŵp Cynefin ar y cynllun bwriededig sydd ganddynt i adeiladu tai fforddiadwy ar dir ger Helyg Nefyn a cafodd yr aelodau y cyfle i ofyn cwestiynnau ar y diwedd.
   Penderfynwyd i roi'r mater ar agenda nesaf CTN er mwyn cadw'r drafodaeth i fynd.

6. **Diffyg ymateb i ebyst –** Clerc
   Mae'r clerc yn gofyn yn garedig i bawb wneud fwy o ymdrech i ymateb i ebyst yn enwedig yn ystod mis Awst pan nad oes cyfarfod neu mae'n dal ei gwaith yn ôl.

7. **Oriau ychwanegol y Clerc – cais grant SPF gwellianau i lwybr Penrallt Nefyn –** Clerc
   Mae'r clerc wedi gweithio oriau ychwanegol ar y prosiect gwelliannau i lwybr Penrallt Nefyn ac wedi cofnodi'r oriau i lawr ac wedi eu gyrru i'r aelodau.
   Penderfyniad: talu'r clerc.
   Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Carys Roberts

8. **Adroddiad Perthyn –** Gruffydd Williams
   Penderfynwyd ei ohirio tan agenda mis nesaf.

9. **Plannu hadau blodau gwyllt –** Is-bwyllgor blodau
   Gan fod yr eitem yma wedi cael ei basio ymlaen amryw o weithiau erbyn hyn penderfynwyd i'r Is-bwyllgor blodau gyfarfod i drafod y mater.

10 **Logo CTN –** Cadeirydd

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

Cyngor Tref Nefyn

COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 10/09/2024 am 7yh

Derbyniwyd proof a dyfynbris gan ddau gwmni ac mae'r aelodau wedi cael copi ohonynt cyn y pwyllgor.
Penderfyniad: mynd hefo'r pris rhataf a'r clerc i'w ychwanegu ar ben bob llythyr a dogfen CTN. Pasiwyd hefyd i roi'r logo uwchben Siop Siarad, fel sydd wedi cael ei basio eisioes a gadael Crwydro ar y chwith a Siop Siarad ar y dde a rhoi logo Newydd CTN yn y canol ac mae dau o'r aelodau am gyfarfod y cwmni i drafod y gosodiad.
Cynnig: Arfon Hughes     Eilio: Rhys Llewelyn

**11 Dyfynbrisiau Plac Herbert Rees Wilson –** Clerc
Mae'r clerc wedi derbyn dau ddyfynbris ac un proof ac wedi eu hafnon ymlaen i'r aelodau.
Penderfyniad: mynd hefo'r pris rhataf a'r clerc i archebu'r plac.
Cynnig: Arfon Hughes     Eilio: Gareth Jones

**12 Ail wynebu llinell llwybr aml ddefnydd Benrallt rhwng Nefyn a Bwlch Bridin –** Gruffydd Williams
Mae'r llwybr yma wedi dirywio drost y 10 mlynedd diwethaf ac mae'n lwybr holl bwysig felly mae angen ei ail wynebu.
Penderfyniad: mae aelod lleol Nefyn am ysgrifennu briff a'r clerc am ei yrru i un o gontractwr CTN er mwyn cael pris erbyn y pwyllgor nesaf.
Cynnig: Gruffydd Williams     Eilio: Gareth Jones

**13 Gohebiaeth a Dderbyniwyd**

- **Ebost Llinos –** cais am 'ystafell gynnes'
  Penderfyniad: Mae'r aelodau yn ddigon bodlon i gynnig adeilad Siop Siarad iddi os ydi hi eisiau mynd a fo ymhellach ond mae angen pwysleisio bod Felin Fach wedi trio menter tebyg iawn yn y gorffennol heb lawer o lwyddiant gan nad oedd neb yn troi fyny.

**14 Ceisiadau Cynllunio**
**C24/0671/42/LL –** Caeau Capel Hotel, Rhodfa'r Môr, Nefyn – Cais llawn i ddymchwel estyniad unllawr presennol a chodi estyniad to gwastad newydd gyda balconi uwchben, creu agoriadau llawr cyntaf newydd fel mynedfa i'r blaconi, cynyddu maint ffenestri ail lawr a chreu balconiau newydd ynghŷd â chreu ffenestr cromen newydd.
Penderfyniad: i beidio rhoi sylwadau.
Cynnig: Lleucu Jones     Eilio: Alaw Llewelyn Roberts
**C24/0687/42/LL –** Plot Borthwen, Lôn Rhos, Edern – Cais llawn i adeiladu 10 tŷ preswyl (Dosbarth defnydd C3) gan gynnwys 4 tŷ fforddiadwy gyda datblygiadau cysylltiedig gan gynnwys mynedfa, parcio a thirlunio.
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.
Cynnig: Gwynfor Jones     Eilio: Gito Williams

Ceisiadau Diweddarach

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

CYNGOR TREF NEFYN

COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 10/09/2024 am 7yh

**C24/0689/42/LL** – Tir ger Maes Twnti, Morfa Nefyn – cais llawn i adeiladu 9 tŷ fforddiadwy (dosbarth defnydd C3) gyda datblygiadau cysylltiol gan gynnwys ymestyn ffordd stad bresennol, creu llecynnau parcio a tirlunio.
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.
Cynnig: Lleucu Jones Eilio: Carys Roberts

**15 Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1,407.78 (taliad Bacs)
- Nefyn Foods Ltd – rent Siop Siarad - £780.00
- Ashley Hughes – offer swyddfa - £32.24
- HMRC – PAYE Mis 5 - £353.53
- E.On Next – trydan Llyfrgell mis Awst - £154.26
- Tyddyn Sachau – blodau Edern - £143.90

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Gareth Jones Eilio: Rhys Llewelyn

**16 Taliadau wedi eu derbyn**

- Cyngor Gwynedd – Praesept - £45,000.00

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com